# GWASANAETH CYN-FILWYR A THEULUOEDD - UWCH YMARFERYDD

TGP Cymru yw un o'r elusen fwyaf blaenllaw yng Nghymru, sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc, a theuluoedd sy'n agored i niwed trwy ystod o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Ariennir gwasanaethau TGP Cymru gan sawl cyllidwr ac maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru.

tgp CYMRU
PLANT A THEULUOEDD
CHILDREN AND FAMILIES

**Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau i Deuluoedd

**Yn atebol i:** Rheolwr Tîm Cyn-filwyr a Theuluoedd

**Lleoliad:** Yn seiliedig yn y cartref yn unol â'n Fframwaith Gweithio o Unrhyw Le

**Pwrpas y rôl:**

Y Gwasanaeth Cyn-filwyr a Theuluoedd yw'r datblygiad diweddaraf yn nhaith TGP Cymru sy'n cefnogi Cyn-filwyr a'u teuluoedd i helpu i wella perthnasoedd, cyfathrebu a gweithredu teuluol.

Rôl yr Uwch Ymarferydd yw cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i ddarparu gwasanaeth effeithiol gan gynnwys pob agwedd ar gefnogi aelodau'r tîm a mentora ymarferwyr yn unol â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru gan sicrhau cydymffurfiaeth reoleiddiol a chytundebol y sefydliad.

**Atebolrwydd / Cyfrifoldebau:**

- Dirprwyo ar ran y Rheolwr Tîm fel y bo'n briodol, gan gefnogi datblygiad a darpariaeth gwasanaeth sy'n defnyddio Ymgysylltu Adferol i helpu Cyn-filwyr, a'u teuluoedd i wella perthnasoedd, cyfathrebu a gweithrediad y teulu
- Darparu cymorth ymarfer a goruchwyliaeth ffurfiol i ymarferwyr
- Derbyn atgyfeiriadau yn unol â meini prawf y cytunwyd arnynt a'u dosbarthu o fewn tîm, gan gynnwys rheoli llwyth achosion eich hun
- Paratoi / Annog / Cefnogi / Galluogi Cyn-filwyr, aelodau o'r teulu a gweithwyr proffesiynol i ymgysylltu a chyflawni eu canlyniadau dymunol gan ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau gan gynnwys Dulliau Adferol, Cyfweld Ysgogol, Datrys Gwrthdaro a Chyfarfodydd Grŵp Teulu
- Datblygu elfennau o waith y Gwasanaeth fel y cyfarwyddir gan y Rheolwr Tîm
- Codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a brwdfrydedd dros waith y Gwasanaeth, ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol
- Rhwydweithio'n briodol gyda chydweithwyr a'r gymuned, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau TGP Cymru ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i asesu canlyniadau'r Gwasanaeth yn erbyn y fframwaith y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol, gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i fonitro ansawdd y gwasanaeth yn erbyn dangosyddion a safonau perfformiad y cytunwyd arnynt a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol lle mae'r perfformiad islaw'r dangosyddion a'r safonau hyn
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru gan gynnwys cyllid, adrodd, rheoli data a diogelu

- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac arfer gwrthwahaniaethol drwy'r gwaith a wneir yn y swydd
  Ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau eraill hynny sy'n ofynnol yn rhesymol gan y sefydliad ac sy'n gyson â'r radd

**Dangosyddion Perfformiad:**

- Yn gyfrifol am ddarparu dangosyddion perfformiad allweddol a safonau ymarfer.
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth yn erbyn safonau a gofynion statudol, rheoleiddiol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau gwasanaeth.

**Cyfrifoldeb rheoli llinell (ar 30/09/2024):**
I'w gadarnhau

**Cyfrifoldeb rheoli cyllideb (ar 30/09/2024):**
I'w gadarnhau

**Gradd:**
MS7

**Amodau gwaith:**

18.5 awr yr wythnos.

Efallai y bydd angen rhywfaint o waith y tu allan i oriau swyddfa sy'n gofyn am ddull hyblyg yn yr wythnos waith.

Efallai y bydd angen gwaith achlysurol ar benwythnosau ac arosiadau achlysurol dros nos i fynychu hyfforddiant / cynadleddau / digwyddiadau neu debyg.

Mae'r rôl wedi'i lleoli gartref ond efallai y bydd angen teithio i wahanol leoliadau o bryd i'w gilydd.

**Cymwysterau:**

- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymuned neu ddisgyblaeth gysylltiedig fel Iechyd ac Addysg (dymunol)

**Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau:**

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- cynhyrchu canlyniadau o ansawdd mewn modd sy'n canolbwyntio ar wasanaeth ac yn amserol ac mae wedi ymrwymo i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt
- gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid a chydnabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefndiroedd eraill
- cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- cyfathrebu'n effeithiol h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; gwrando'n weithredol ac yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu

- bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol

**Gwybodaeth / Profiad:**

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a/neu gofnod o gyflawniad yn y canlynol:

- Rheoli llinell, goruchwylio neu ddatblygu ymarfer
- Gweithio gyda theuluoedd cyfan gan gynnwys rhieni, pobl ifanc a phlant sy'n profi sefyllfaoedd cymhleth
- Cefnogi Rhieni, pobl ifanc a phlant yn y gymuned gan ddefnyddio dull sy’n seiliedig ar gryfderau
- Gweithio gyda Chyn-filwyr (rheolaidd neu wrth gefn) a/neu aelodau teulu personél sydd wedi gwasanaethu o'r blaen neu sydd ar hyn o bryd yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog
- Materion sy'n effeithio ar gyn-filwyr ac aelodau o'u teulu
- Diogelu
- Ymgysylltiad Amlasiantaethol (gan gynnwys y GIG, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol)

  Ymarfer Adferol, Datrys Gwrthdaro, Ymarfer sy’n Ystyriol o Drawma, Cyfarfodydd Grŵp Teulu

**Arall:**

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru bob amser a'u hyrwyddo'n weithredol mewn eraill.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Trwydded yrru lawn a mynediad at gludiant (Mewn rhai amgylchiadau gellir ystyried ymgeiswyr nad ydynt yn gallu gyrru o ganlyniad i anabledd.)
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol)